AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

# In Focus

Haf 2023 - Rhifyn 22

# Cylchlythr Haf AWTTC

**Diweddariad chwarterol ar y newyddion, cyhoeddiadau ac adnoddau diweddaraf.**

**Yn y rhifyn hwn**
**Newyddion Ebrill – Mehefin 2023 ynghylch:**

- **Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)**
  Cefnogi arfarniadau technoleg iechyd, asesiadau meddyginiaethau Cymru'n Un a sicrhau ansawdd allbynnau IPFR
- **Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)**
  Datblygu Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol a dadansoddi ac adrodd ar ddata defnydd meddyginiaethau.
- **Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU)**
  Darparu cyngor 24 awr y dydd ar wenwynau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.
- **Canolfan Cerdyn Melyn (YCC) Cymru**
  Monitro adweithiau andwyol i feddyginiaethau.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Mae AWTTC yn hyrwyddo diogelwch meddyginiaethau yn Eisteddfod yr Urdd, 29 Mai – 3 Mehefin 2023

Mai 2023

Aeth Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC), gan gynnwys cydweithwyr o Ganolfan Cerdyn Melyn Cymru ac Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru, i Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri i reoli stondin ar 'Help Make Medicines Safer'.

Darllenwch fwy yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Mae AWTTC wedi diweddaru ei ddulliau a phrosesau asesu technoleg iechyd (HTA)

Mai 2023

Mae newidiadau allweddol yn cynnwys dileu'r addasydd diwedd oes a chyflwyno 'addasydd difrifoldeb' newydd, a ddisgrifir ym Mholisi newydd AWMSG ar gyfer gwerthuso meddyginiaethau ar gyfer cyflyrau difrifol.

Darllenwch fwy yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Mae'r drydedd sesiwn Dysgu dros Ginio wedi'i chynnal.

Mai 2023

Ymunodd mwy na 100 o glinigwyr â'r sesiwn ar-lein boblogaidd a oedd yn cynnwys sgyrsiau ar ddiweddariad cyflym ar heintiau croen cyffredin – coesau coch, canllawiau gwrthficrobaidd Rhagnodi Rheolaidd mewn Meddygfeydd a Gofal Sylfaenol ac archwiliadau CEPP yn ogystal â'r holl newyddion diweddaraf gan AWTTC.

Darllenwch fwy yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## AWTTC yn mynychu Cynhadledd MediWales Connects 2023

Mehefin 2023

Roedd y gynhadledd yn Eglwys yr Holl Genhedloedd yng Nghaerdydd yn gyfle i arddangos gwaith AWTTC a dysgu am y gwaith a'r ymchwil sy'n cael ei wneud gan gymunedau iechyd a gofal yng Nghymru.

Darllenwch fwy yma.

Yellowcard
Centre
Wales

## Diwrnod Diogelwch Meddyginiaethau Canolfan Cerdyn Melyn Cymru 2023

Mehefin 2023

Cafodd y digwyddiad ei gynnal ar y cyd â Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) ac roedd yn dathlu 40 mlynedd ers sefydlu YCC Cymru..

Darllenwch fwy yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Cyfarfod y Grŵp er budd Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) - 20 Ebrill 2023

Ebrill 2023

Cynhaliwyd cyfarfod ar-lein diweddaraf y Grŵp er budd Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) ar 20 Ebrill ac roedd yn canolbwyntio ar amlgyffuriaeth.

Darllenwch fwy yma.

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## Cyngor newydd ar feddyginiaethau i GIG Cymru

Mehefin 2023

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyngor gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) ar gyfer un feddyginiaeth newydd.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Deall meddyginiaethau didrwydded

Mai 2023

Diben y ddogfen hon yw darparu canllawiau ar gyfer gwella rheolaeth meddyginiaethau 'arbennig' didrwydded ac all-drwydded ym mhob sector gofal iechyd yn GIG Cymru.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol

Ebrill / Mai 2023

Diweddariad bach i'r ddogfen hon.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Canllawiau rheoli a phresgripsiynu asthma pediatrig Cymru gyfan

Mehefin 2023

Mae Canllawiau Rheoli a Phresgripsiynu Asthma Pediatrig Cymru Gyfan wedi cael eu datblygu fel rhan o ddull integredig o safoni gofal ledled Cymru ar gyfer plant â chlefyd anadlol.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Adroddiadau ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru

Mehefin 2023

Mae Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU), uned ddadansoddol AWTTC, wedi datblygu dangosfwrdd er mwyn adrodd ar gynnydd mewn lleihau ôl-troed carbon anadlyddion a ddefnyddir ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Adroddiadau cyfnodau rhagnodi GIG Cymru

Mehefin 2023

Mae Uned Cymorth Rhagnodi Dadansoddol Cymru (WAPSU), uned ddadansoddol AWTTC, wedi datblygu dangosfwrdd i adrodd ar gynnydd ynghylch cynyddu'r cyfnodau rhagnodi ar gyfer presgripsiynau a roddir o fewn gofal sylfaenol yng Nghymru.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2022-2023: Adroddiadau chwarterol

Ebrill 2023

The National Prescribing Indicators (NPIs) for 2022-2023 include indicators for primary and secondary care.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2022-2025

Mehefin 2023

Mae dangosyddion presgripsiynu cenedlaethol yn dangos sut y mae'r gwahanol fyrddau iechyd yng Nghymru yn presgripsiynu meddyginiaethau penodol, ac yn tynnu sylw at unrhyw wahaniaethau mewn patrymau presgripsiynu.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Dangosfyrddau SPIRA newydd wedi'u cyhoeddi: 'Cyfnod Presgripsiynu Interval' a 'Prosiect Gwella Ansawdd Anadlydd Gwyrdd'

Mai / Mehefin 2023

Rhaglen ryngweithiol ar-lein ar gyfer dadansoddiad cymharol o ddata presgripsiynu yw'r Gweinydd ar gyfer Gwybodaeth, Adroddiadau a Dadansoddiadau Rhagnodi (SPIRA).

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Cydnabyddiaeth AWMSG Newydd: Adwaith Cyffuriau Niweidiol (ADRe)

Ebrill 2023

Nod proses Gydnabod AWMSG yw amlygu'r adnoddau, mentrau neu ymgyrchoedd sydd eisoes wedi'u cydnabod neu eu cymeradwyo gan gorff neu sefydliad cenedlaethol ac sydd wedi eu rhoi ar waith neu eu derbyn fel arfer da o fewn GIG Cymru.

Darllenwch fwy yma.




*Dangosfwrdd SPIRA, dangosyddion presgripsiynu cenedlaethol*

WNPU
Welsh National Poisons U
Uned Gwenwynau Cenedl

## 43ain Cyngres Cymdeithas Ewropeaidd y Canolfannau Gwenwynau a Thocsicolegwyr Clinigol, Palma, Mallorca 23-26 Mai 2023

Mai 2023

Cynrychiolwyd Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU) gan nifer o staff yn y gyngres, a rhoddodd dau ohonynt gyflwyniadau llafar ar roi hylif sigaréts electronig yn y llygaid yn anfwriadol, ac ar sodiwm nitraid fel pryder iechyd cyhoeddus sy'n dod i'r amlwg yn y DU.

Darllenwch fwy yma.

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol C

## Cyngres Flynyddol Cymdeithas Tocsicoleg Prydain 2023

Ebrill 2023

Yn ddiweddar mynychodd Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru Gyngres Flynyddol BTS yn Birmingham.

Darllenwch fwy yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Staff AWTTC yn cymryd rhan yn ras flynyddol Cosmeston

Cafodd rhedwyr o AWTTC gefnogaeth eu ffrindiau i ffurfio 3 thîm o dri o bobl yr un yn y ras gyfnewid ym Mharc Llynnoedd Cosmeston gyda phob person yn rhedeg 5 km. Bu'r tywydd yn garedig ac fel bob amser cafwyd presenoldeb brwd gyda dros 700 o redwyr a gwylwyr. Llwyddodd ein timau i redeg y ras mewn 1h14m, 1h15m ac 1h27m – felly ymdrech wych ac roedd yn llawer o hwyl. Gwnaeth y rhedwyr cyntaf a'r ail redwyr ym mhob tîm brofi cyffro yn ceisio dod o hyd i'w cyd-aelodau o'r tîm i drosglwyddo'r baton ymhlith torf o 200 o bobl mewn gofod llawn dop.

Cyfranogwyr AWTTC oedd Karen Jones, Richard Boldero, Gill Carter, Sabrina Rind a Stuart Keeping.



Diolch enfawr i aelodau anrhydeddus AWTTC am y noson: Andy Champion, Alex Hirst, Sally Harlin a John Dyer a gwblhaodd ein timau.